Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad monitro gan Estyn

## Partneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned Sir Gaerfyrddin

**Cyngor Sir Caerfyrddin**
**Neuadd y Sir**
**Caerfyrddin**
**SA31 1JP**

**Dyddiad yr ymweliad: Rhagfyr 2012**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2013: Gellir ailddefnyddio’r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio’n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Y tîm monitro**

| | |
|---|---|
| Liam Kealy | Arolygydd Cofnodol |
| Mark Evans | Arolygydd Tîm |

**Canlyniad yr ymweliad monitro**

Bernir bod Partneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned Sir Gaerfyrddin wedi gwneud cynnydd digonol mewn perthynas â'r argymhellion yn dilyn yr arolygiad craidd ym Mawrth 2011.

O ganlyniad, bydd Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru yn tynnu enw'r bartneriaeth oddi ar y rhestr o ddarparwyr y mae angen iddynt gael eu monitro gan Estyn. Fodd bynnag, bydd Estyn yn cynnal y drefn o fonitro rhaglen wella'r bartneriaeth trwy ymweliadau monitro tymhorol gan arolygydd arweiniol y sector ar gyfer dysgu oedolion yn y gymuned.

**Cynnydd ers yr arolygiad diwethaf**

**Argymhelliad 1: Gwella safonau dysgu ac addysgu, yn enwedig mewn ASO a SSIE**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn rhannol.

Mae deilliannau dysgwyr yn dangos tuedd o wella ar y cyfan. Mae'r awdurdod lleol wedi gwella'r safonau a gyflawnir gan ei ddysgwyr o 8 pwynt canran rhwng 2009 a 2011. Mae Coleg Sir Gâr wedi gwella'r gyfradd lwyddo ar gyfer dysgwyr Addysg Sylfaenol i Oedolion (ASO) 5 pwynt canran yn ystod yr un cyfnod. Fodd bynnag, mae'r gyfradd lwyddo islaw'r cymharydd cenedlaethol. Mae'r coleg wedi gwella ei gyfradd lwyddo ar gyfer dysgwyr Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill (SSIE) ddeuddeg pwynt canran, ac mae'n debyg i'r cymharydd cenedlaethol.

Mae'r bartneriaeth yn gweithio'n briodol i wella'r safonau a gyflawnir gan ddysgwyr yn yr ystafell ddosbarth a gwella ansawdd yr addysgu.

Mae'r bartneriaeth wedi cryfhau ei phroses ar gyfer arfarnu perfformiad tiwtoriaid. Mae wedi hyfforddi staff i arsylwi tiwtoriaid a nodi eu cryfderau a meysydd i'w gwella. Cynhaliwyd arolygiad mewnol gan y bartneriaeth yn Rhagfyr 2011, pan arsylwyd 47 o ystafelloedd dosbarth. Mae gan y bartneriaeth broses ddefnyddiol ar gyfer safoni'r barnau o arsylwadau. Mae wedi defnyddio'r broses hon yn briodol i dargedu tiwtoriaid y mae angen cymorth arnynt i wella eu haddysgu. Mae'r tiwtoriaid hynny naill ai wedi gwella eu haddysgu neu wedi gadael o ganlyniad.

Mae'r bartneriaeth wedi arfarnu'r broses arolygu fewnol ac wedi nodi bod angen gwella cysondeb yn y barnau a lunnir gan arsyllwyr. Canfu tîm monitro Estyn nad oedd digon o gysondeb rhwng arsyllwyr o ran y pwysigrwydd y maent yn ei roi i'r cryfderau a briodolir i addysgu ac asesu da. Mae'r bartneriaeth wedi dechrau defnyddio deilliannau arsylwadau i rannu arfer dda rhwng tiwtoriaid.

Dangosodd yr arolygiad mewnol fod dysgwyr yn cyflawni safonau da yn yr ystafell ddosbarth a chadarnhawyd hyn gan y tîm monitro. Mewn tair o'r pedair sesiwn a arsylwyd, mae dysgwyr yn ymroi yn dda i'w gwaith, maent yn cwblhau eu gwaith yn dda ac maent yn meddu ar fedrau da sy'n eu helpu i weithio yn annibynnol. Mae dysgwyr ASO yn gwella eu cymhwysedd a'u dealltwriaeth yn sylweddol. Mae dysgwyr SSIE yn meddu ar ddealltwriaeth dda o Saesneg, ac maent yn cyfathrebu'n dda. Gallant gynnal sgyrsiau estynedig am fywyd bob dydd. Mae dysgwyr yn

gwneud cynnydd da i ddysgu pellach. Mae’r awdurdod lleol wedi diwygio’r math o gymwysterau a gynigir i ddysgwyr SSIE i’w helpu i gymryd camau graddol tuag at wella eu lefelau cyrhaeddiad.

Fodd bynnag, mae’r bartneriaeth yn cydnabod yn ei hadroddiad hunanasesu nad yw wedi codi’r safonau a gyflawnir gan ddysgwyr i lefel dda eto. Er bod y bartneriaeth wedi gwella ansawdd yr addysgu, mae’n cydnabod bod angen iddi wella cysondeb yn ei dull o arfarnu ansawdd yr addysgu ar draws y bartneriaeth. Mae’r bartneriaeth yn bwriadu cynnal cylch rheolaidd o arsylwadau o berfformiad tiwtoriaid ac mae’n gwneud defnydd gwell o osod targedau gyda thiwtoriaid i godi’r safonau a gyflawnir gan ddysgwyr. Mae’r awdurdod lleol wedi defnyddio carfan newydd o diwtoriaid rhan-amser yn ddiweddar, ac mae’n bwriadu sicrhau eu bod yn ennill cymwysterau addysgu. Mae wedi diwygio’r math o gymwysterau a gynigir i ddysgwyr SSIE i’w helpu i gymryd camau graddol tuag at wella eu lefel cyrhaeddiad.

**Argymhelliad 2: Gwneud defnydd gwell o ddata i osod targedau ar gyfer gwella**

Aethpwyd i’r afael â’r argymhelliad hwn yn rhannol.

Mae rheolwyr y bartneriaeth wedi cryfhau eu ffocws ar osod targedau ar gyfer gwella. Maent wedi gosod targedau cyrhaeddiad clir i ddysgwyr ar y rhan fwyaf o raglenni ar draws y bartneriaeth. Yn gyffredinol, mae’r targedau hyn wedi’u halinio â chymaryddion cenedlaethol (CC) sy’n ymwneud â pherfformiad y sector. Mae’r bartneriaeth yn ymgymryd â’r ymarfer gosod targedau ar gyfer pob maes rhaglen bob blwyddyn. Fodd bynnag, nid yw rheolwyr a staff yn rhoi digon o sylw yn gyson i’r rhesymau pam mae dysgwyr yn gadael rhaglenni yn gynnar. Mae niferoedd y dysgwyr yn isel iawn ar rai rhaglenni o ganlyniad.

Mae mwyafrif y tiwtoriaid yn dangos gwybodaeth briodol am dargedau ar gyfer y rhaglenni y maent yn eu cyflwyno. Fodd bynnag, ar draws y bartneriaeth, nid yw pob tiwtor yn dangos dealltwriaeth gyson o’r modd y caiff targedau eu gosod a’u monitro.

Mae’r bartneriaeth wedi cynnal adolygiad cynhwysfawr o’i chwricwlwm. Mae’r bartneriaeth yn trefnu bod rhaglenni mwy achrededig ar gael i ddysgwyr erbyn hyn. O ganlyniad, caiff dysgwyr gyfleoedd gwell yn awr ar gyfer symud ymlaen i ddysgu pellach. Mae’r bartneriaeth yn monitro dilyniant yn dda. Dengys data dilyniant fod ychydig dros 40% o ddysgwyr wedi symud o ddarpariaeth dysgu yn y gymuned i ddarpariaeth AB prif ffrwd yn 2010/2011, o gymharu ag ychydig dros 28% o ddysgwyr yn 2009/2010.

Mae rheolwyr yr awdurdod lleol yn gwneud yn siwr eu bod yn cynnal adolygiadau perfformiad gyda’r holl diwtoriaid ddwywaith y flwyddyn. Mae’r adolygiadau hyn yn ddefnyddiol o ran adolygu a monitro perfformiad tiwtoriaid. Fodd bynnag, ni chaiff yr arfer o osod a chofnodi targedau ei chymhwyso’n gyson. Golyga hyn nad yw rheolwyr a thiwtoriaid bob amser yn glir ynghylch pa dargedau a osodwyd a ph’un a yw tiwtoriaid wedi eu cyflawni.

**Argymhelliad 3: Gwella strategaethau ar gyfer datblygu llythrennedd a rhifedd**

Aethpwyd i’r afael â’r argymhelliad hwn yn rhannol.

Mae'r bartneriaeth wedi gwneud dechrau defnyddiol wrth helpu tiwtoriaid i ddatblgu'r medrau priodol i gefnogi dysgwyr â'u hanghenion llythrennedd.

Mae'r bartneriaeth wedi datblygu llawlyfr cynhwysfawr iawn i diwtoriaid, sy'n cynnwys cyngor defnyddiol ar sut gall staff helpu dysgwyr i wella eu medrau llythrennedd a rhifedd.  Fodd bynnag, nid yw'r ddogfen yn cynnwys digon o wybodaeth nac arweiniad ynghylch sut i roi cymorth yn ei gyd-destun a'i ymgorffori yn y rhaglen ddysgu.

Mae nifer o diwtoriaid wedi cwblhau rhaglen hyfforddi lefel 2 mewn cymorth i ddysgwyr sy'n oedolion.  Mae gan y darparwr gynlluniau i bob tiwtor gwblhau'r hyfforddiant dros y blynyddoedd nesaf.  Golyga hyn nad yw pob tiwtor efallai'n meddu ar y cymhwysedd a'r hyder ar hyn o bryd i roi cymorth effeithiol i ddysgwyr.

Mae'r bartneriaeth yn cynnal cyfarfodydd datblygiad staff rheolaidd gyda thiwtoriaid. Mae sawl un o'r cyfarfodydd hyn yn cynnwys ffocws clir ar wella dealltwriaeth a gallu tiwtoriaid i roi cymorth effeithiol i ddysgwyr.  Mae'r bartneriaeth yn gweithio gyda'i thiwtoriaid ar hyn o bryd i roi llythrennedd yn ei gyd-destun a'i ymgorffori yn y brif raglen ddysgu.

Mae'r darparwr wrthi'n datblygu llawlyfr arweiniad ar farcio a chywiro ar gyfer ei staff ar hyn o bryd.  Bydd y ddogfen hon yn helpu pob tiwtor i roi adborth ffurfiol cyson i ddysgwyr ar eu gwaith ysgrifenedig.  Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i farnu effaith yr arweiniad.

Mae'r rhan fwyaf o diwtoriaid yn dangos gwybodaeth briodol am sut i gyfeirio dysgwyr am gymorth dysgu ychwanegol neu arbenigol.  Fodd bynnag, nid yw pob tiwtor yn meddu ar ddealltwriaeth glir o sut i nodi angen cymorth ychwanegol.

Gofynnir i'r holl diwtoriaid ddatblygu cynlluniau gwaith ar gyfer eu rhaglenni.  Fodd bynnag, nid yw'r dogfennau hyn yn cynnwys gwybodaeth yn ymwneud â llythrennedd a rhifedd yn rheolaidd.  Ni chaiff ansawdd cynlluniau gwaith ei wirio gan reolwyr ar hyn o bryd i wneud yn siwr eu bod yn cynnwys agweddau ar lythrennedd a rhifedd.

**Argymhelliad 4:  Gwella monitro ac arfarnu hyfforddiant ar ddiogelu**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn llawn.

Mae'r bartneriaeth wedi gwella'r modd y mae'n monitro ac yn arfarnu ei hyfforddiant ar gyfer diogelu.  Cyn y newidiadau mewn arweiniad diogelu ar gyfer dysgwyr sy'n agored i niwed yn ddiweddar, cwblhaodd pob tiwtor wiriadau'r Swyddfa Cofnodion Troseddol yn llwyddiannus, ac roedd yn ofynnol iddynt gwblhau rhaglen hyfforddiant achrededig yn llwyddiannus.  Gwnaeth rheolwyr yn siwr fod tiwtoriaid wedi cwblhau'r hyfforddiant yn llwyddiannus.

Ar ôl rhoi'r arweiniad newydd ar waith, mae'r bartneriaeth yn adolygu'r modd y mae'n asesu risg gweithgareddau er mwyn pennu'r lefel briodol o ofynion diogelu ar gyfer pob gweithgaredd dysgu y mae'n ei gyflwyno.

Mae'r ddau brif sefydliad sy'n ei gyflwyno, sef yr awdurdod lleol a Choleg Sir Gâr, wedi rhoi prosesau effeithiol ar waith ar gyfer diogelu dysgwyr.  Mae'r awdurdod lleol yn cynnal asesiad risg ar gyfer pob gweithgaredd dysgu i bennu lefel y trefniadau

diogelu y mae angen iddo eu gwneud.  Mae'r awdurdod lleol yn darparu hyfforddiant mewn diogelu ar gyfer ei diwtoriaid yn rheolaidd hefyd.  Mae hyn yn cynnwys trafod agweddau ar berygl, sbardunau pryder a chyngor ynghylch cyfeirio dysgwyr at asiantaethau cymorth eraill pan fo'n briodol.

Mae Coleg Sir Gâr fel arfer yn cynnal gwiriadau'r Swyddfa Cofnodion Troseddol ar gyfer yr holl staff dysgu oedolion oherwydd gallent hefyd fod yn gweithio gyda phobl ifanc sy'n 18 oed ac yn hŷn.  Mae wedi ceisio gwella systemau ar gyfer adrodd am faterion diogelu hefyd.  O ganlyniad, mae mwy o ddysgwyr yn adrodd am faterion.  Gwna'r coleg ddefnydd priodol o'r wybodaeth hon i hyfforddi staff.

**Argymhelliad 5:  Hyrwyddo a gwella'r defnydd o'r Gymraeg fel cyfrwng cyfathrebu yn y dosbarth ac ar draws y ddarpariaeth**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn llawn.

Mae'r bartneriaeth yn gweithio'n dda iawn i hyrwyddo a gwella'r defnydd o'r Gymraeg fel cyfrwng cyfathrebu yn yr ystafell ddosbarth.

Mae'r bartneriaeth wedi rhoi strategaeth a chynllun gweithredu ar waith ar ddysgu Cyfrwng Cymraeg a Dwyieithog.  Mae'r cynllun yn rhoi blaenoriaeth i helpu dysgwyr, tiwtoriaid a rheolwyr i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ar gyfer cyfathrebu, addysgu ac asesu.  Mae'r bartneriaeth wedi gweithio'n dda gyda Sgiliaith, sef prosiect a ariennir gan yr Adran Addysg a Sgiliau i gefnogi dwyieithrwydd yn y sector AB, i fwrw ymlaen â'i chynllunio strategol ar gyfer hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn yr ystafell ddosbarth.  Mae'r bartneriaeth wedi gweithio ar draws partneriaeth dysgu rhanbarthol de orllewin Cymru i gynghori darparwyr dysgu oedolion yn y gymuned eraill ynghylch sut i wella'r defnydd o'r Gymraeg ar gyfer cyfathrebu yn yr ystafell ddosbarth.

O ganlyniad, gall dysgwyr a thiwtoriaid yn Sir Gaerfyrddin weithio'n well yn ddwyieithog.  Mae tiwtoriaid yn defnyddio'r Gymraeg yn yr ystafell ddosbarth yn fwy rheolaidd ac mae dysgwyr yn fwy parod i ddefnyddio eu medrau Cymraeg ar gyfer dysgu.

Mae'r bartneriaeth yn adeiladu ar lwyddiant y gwaith hwn.  Mae wrthi'n cynnal arolwg o fedrau Cymraeg staff ar hyn o bryd ac yn teilwra hyfforddiant i helpu staff i wella eu medrau.  Mae hefyd yn gwella'r modd y mae'n casglu gwybodaeth am fedrau iaith dysgwr i helpu tiwtoriaid i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn yr ystafell ddosbarth.

Ar y cyfan, mae'r bartneriaeth wedi gwneud cynnydd digonol ers yr arolygiad diwethaf.

Mae deilliannau dysgwyr yn dangos tuedd o wella, ac mae dysgwyr yn cyflawni safonau da yn yr ystafell ddosbarth ar y cyfan.

Mae'r bartneriaeth yn gweithio'n briodol i wella ansawdd yr addysgu.  Mae rheolwyr wedi gwella'r ffocws ar osod targedau ar gyfer gwella.  Maent wedi gosod targedau cyrhaeddiad clir i ddysgwyr ar y rhan fwyaf o raglenni ar draws y bartneriaeth.  Fodd bynnag, ar draws y bartneriaeth, nid yw pob tiwtor yn dangos dealltwriaeth gyson o'r modd y caiff targedau eu gosod a'u monitro.

Mae'r bartneriaeth wedi gwneud dechrau defnyddiol o ran helpu tiwtoriaid i ddatblygu'r medrau priodol i gefnogi dysgwyr â'u hanghenion llythrennedd.  Mae wedi gwella'r modd y mae'n monitro ac yn arfarnu ei hyfforddiant ar gyfer diogelu.

Mae'r bartneriaeth yn gweithio'n dda iawn i hyrwyddo a gwella'r defnydd o'r Gymraeg fel cyfrwng cyfathrebu yn yr ystafell ddosbarth.